



## Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Tairgwaith

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2024**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Tairgwaith yn ysgol hapus a chynhwysol sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i les ei disgyblion. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn poeni. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos lefelau da o ddiddordeb yn eu gwersi ac yn mwynhau'r cyfleoedd a gânt i wella'u hysgol fel rhan o grwpiau llais y disgybl. Rhoddir pwyslais cryf ar gymuned, ac mae teuluoedd yn gwerthfawrogi rôl yr ysgol yn eu bywydau yn fawr. Ceir lefel uchel o ofal a pharch ymhlith disgyblion, staff a llywodraethwyr, ac fe gaiff hyn ddylanwad cadarnhaol iawn ar agweddau ac ymddygiadau disgyblion.

Mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd addas yn eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae athrawon yn darparu profiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb llawer o ddisgyblion, ac yn creu cysylltiadau da â'r gymuned leol. Ym mwyafrif y gwersi, mae athrawon yn adeiladu'n raddol ar yr hyn y mae disgyblion yn ei wybod. Yn yr enghreifftiau gorau, maent yn cynllunio i ddiwallu anghenion unigol yn dda. Fodd bynnag, mae ansawdd yr addysgu yn anghyson. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysgu medrau ysgrifennu a rhifedd yn gyfyngedig, yn enwedig yn y dosbarthiadau hŷn. O ganlyniad, nid yw llawer o ddisgyblion hŷn yn ymestyn nac yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu a rhifedd yn ddigon da nac yn gwneud cynnydd ar y gyfradd y gallant.

Mae gan staff berthnasoedd cryf â disgyblion. Maent yn defnyddio anogaeth gadarnhaol, ac yn canmol disgyblion am eu cyflawniadau. Ym mwyafrif yr achosion, mae staff yn rhoi adborth gwerthfawr i ddisgyblion. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw'r adborth yn eu cynorthwyo i nodi'r camau nesaf yn eu dysgu.

Mae arweinwyr yn gweithio gyda disgyblion a'r gymuned i greu gweledigaeth ar gyfer gwaith yr ysgol ac yn mynd i'r afael â rhai blaenoriaethau cenedlaethol fel diwygio ADY yn dda iawn. Mae staff yn cydweithio i gyfrannu at waith gwella, ac yn ymgymryd â gweithgareddau monitro addas. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau hyn bob amser yn arwain at y gwelliannau angenrheidiol, er enghraifft mewn datblygu cynllun eu cwricwlwm ymhellach. Mae llywodraethwyr yn weithgar iawn yn datblygu'r ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac yn helpu sicrhau ei bod yn diwallu anghenion niferus ei chymuned yn dda.

# Argymhellion

- A1 Mynd i'r afael â'r anghysondebau yn ansawdd yr addysgu
- A2 Gwella medrau ysgrifennu a rhifedd disgyblion yn y dosbarthiadau hŷn
- A3 Rhoi adborth effeithiol i ddisgyblion hŷn fel eu bod yn gwybod beth i'w wneud i wella'u gwaith

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.



# Cyd-destun yr ysgol

Enw'r darparwr	Ysgol Gynradd Tairgwaith
Awdurdod lleol	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Iaith y darparwr	Saesneg
Math o ysgol	Cynradd
Cymeriad crefyddol	Dim
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	104
Disgyblion o oed ysgol statudol	87
Nifer yn y dosbarthiadau meithrin	11
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.7%)	34.1%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 13.2%)	19.5%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	2.9%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	5.7%
Dyddiad penodi'r pennaeth	01/01/2015
Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol)	01/03/2016
Dyddiad dechrau'r arolygiad	05/02/2024

Ⓜ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/04/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.